

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Tŷ Catrin

Priory Group

Dyddiad yr arolygiad: 22–24 Ebrill
2018

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	26
4.	Beth nesaf?	30
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	31
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	32
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Tŷ Catrin fin nos 22 Ebrill 2018 ac yn ystod dyddiau canlynol 23 a 24 Ebrill 2018. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Bute - Diogelwch Isel i Ddynion - 11 o welyau
- Ward y Rhath - Diogelwch Isel i Ddynion - wyth o welyau
- Ward Victoria - Diogelwch Isel i Fenywod - 11 o welyau
- Ward Sophia - Diogelwch Isel i Fenywod - wyth o welyau
- Ward Trelái - Diogelwch Isel i Fenywod - pedwar o welyau
- Ward y Waun Ddyfal - Adsefydlu dan glo i Fenywod - tri o welyau

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC a tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig). Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion dan orchymyn Deddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu'r gydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd ffocws ar y gofal lleiaf rhwystredig i helpu adferiad a chefnogi cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau.

Mae angen gwelliannau sylweddol yng nghyflawniad y darparwr cofrestredig o gyfrifoldebau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd parchus
- Roedd amgylchedd y gofal yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion.
- Yn canolbwyntio ar ofal lleiaf cyfyngol i gynorthwyo gwellhad ac yn cynorthwyo'r cleifion i gynnal a datblygu sgiliau
- Roedd y dulliau rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ac effeithiol.
- Cydymffurfiaeth uchel mewn hyfforddiant gorfodol, goruchwylio ac arfarnu

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflawni ei gyfrifoldebau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Darparu gwybodaeth i gleifion
- Dogfennaeth oddi mewn ac i gynorthwyo Cynlluniau Gofal a Thriniaeth

Gwnaethom nodi toriadau rheoleiddiol yn ystod yr arolygiad ynglŷn â chyflawniad cyfrifoldebau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrllon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Tŷ Catrin wedi ei gofrestru i ddarparu Ysbyty Iechyd Meddwl annibynnol yn Tŷ Catrin, Dyfrig Road, Caerdydd CF5 5AD.

Mae gan y gwasanaeth 44 o welyau ar draws chwe ward rhyw benodol. Roedd 40 o gleifion ar adeg yr arolygiad.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 26 o fis Hydref 2009. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol, pedwar o reolwyr wardiau, dau gydlynnydd nos a thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd. Mae aelodau amlddisgyblaethol yn y tîm sy'n cynnwys seiciatryddion fforensig ymgynghorol, seicolegydd, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol.

Mae'r ysbyty yn cyflogi tîm cynnal a chadw, arlwyo a staff domestig. Mae tîm o staff gweinyddol yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r ysbyty.

Mae'r ysbyty yn cael ei gefnogi gan reolwyr a strwythurau sefydliadol The Priory Group.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaethom arsylwi bod staff ar draws yr ysbyty yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol a'u bod yn trin y cleifion gydag urddas a pharch.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella'r amrediad o wybodaeth ar gyfer cleifion sy'n cael ei arddangos ar draws yr ysbyty.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o fentrau hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn Tŷ Catrin a oedd yn cynorthwyo cynnal a gwella llesiant y cleifion. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad nid oedd llawer o wybodaeth yn cael ei harddangos ar draws yr ysbyty er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion a staff ynghylch y rhain; dywedwyd wrthym fod hyn yn rhannol oherwydd gwaith adnewyddu parhaus ar amgylchedd yr ysbyty. Byddai o fudd mawr i'r grŵp cleifion petai wybodaeth ar hybu, gwarchod a gwella iechyd yn cael ei harddangos ar draws y ward ac ardaloedd cymunedol oddi fewn yr ysbyty.

Roedd gan Tŷ Catrin nyrs practis a oedd yn cynnal cofrestriad nyrs cyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd cynorthwydd cyflogedig ar gael i gynorthwyo'r nyrs y practis yn y rôl neu phan oedd yn absennol o'r ysbyty. Wrth siarad â staff ac adolygu dogfennaeth daeth i'r amlwg y bu'n rhaid i rai cleifion gael eu hebrwng i wasanaethau gofal iechyd cymunedol, ond pe byddai staff wedi'u hyfforddi mewn sgiliau gofal iechyd ychwanegol, cymwyseddau a mân weithdrefnau ar gael byddai hyn yn fodd i gael gofal iechyd ymarferol mwy prydlon a phriodol. Felly byddai hyn yn cael llai o effaith ar amser y staff sy'n mynd â chleifion i glinigau cleifion allanol neu i unedau damweiniau ac achosion brys.

Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad i Feddyg Teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ymarferol arall yn y gymuned. Cadarnhawyd mynediad at apwyntiadau o'r math hwn trwy sgysiau gyda chleifion a staff ochr yn ochr â nodiadau amdanynt yng nghofnodion y cleifion.

Roedd amrediad o adnoddau ar gael i gynorthwyo darpariaeth o therapïau a gweithgareddau yn yr ysbyty. Roedd staff yr ysbyty yn cynnwys dau therapydd galwedigaethol, pedwar therapydd galwedigaethol cynorthwyol a therapydd chwaraeon.

Roedd yr ysbyty wedi adnewyddu'r gegin Therapi Galwedigaethol yn ddiweddar ac mae'n darparu cyfleuster ar gyfer y staff i gynorthwyo ac asesu sgiliau bywyd bob dydd y cleifion megis coginio a golchi dillad. Roedd gan bob ward gegin ward ei hun lle'r oedd cleifion yn gallu cael mynediad gyda'r staff i baratoi eu diodydd a'u byrbrydau eu hunain. Roedd yn gadarnhaol nodi fel rhan o'r adnewyddu parhaus yn Tŷ Catrin y byddai gan bob ward ei hystafell golchi dillad ei hun fel bod cleifion yn gallu cael eu cynorthwyo i olchi dillad eu hunain ar y ward.

Roedd yr ardal gymunedol ar gyfer pob claf ar lawr cyntaf yr ysbyty, a adnabyddir fel y Piazza, hefyd newydd gael ei adnewyddu ac roedd yn darparu gofod dymunol ar gyfer gweithgareddau grŵp megis sesiynau therapi, grŵp brecwast, boreau coffi a grwpiau ffilm.

Roedd yr ystafell celf yn darparu cyfle i gleifion gymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau celf a chreffft yn yr ysbyty. Roedd cyfrifiaduron hefyd yn yr ystafell gelf, gyda mynediad i'r rhyngwyd, gwnaethom arsylwi ar gleifion (o dan oruchwyliaeth) yn defnyddio'r rhain er mwyn siopa ar y we am eitemau personol.

Cawsom wybod bod cleifion yn cael y cyfle i gofrestru ar The Recovery College, rhaglen addysg y Priory, sy'n cynnwys amrediad o gyrsiau addysgol sy'n cynnwys sgiliau TG a diogelwch ar y we. Wrth siarad â rhai o'r cleifion gwnaethant esbonio eu bod wedi derbyn gwersi Saesneg a mathemateg dra eu bod yn yr ysbyty.

Roedd ystafell addas ar gael ar y llawr cyntaf ar gyfer hwyluso ymwelwyr, gwasanaethau aml ffydd a sesiynau ymlacio. Roedd ardal bwrpasol i blant sy'n ymweld ar y llawr daear a cheir mynediad iddi trwy brif dderbynfa'r ysbyty. Roedd hon wedi'i lleoli'n addas fel bod plant sy'n ymweld ond yn gorfod mynd mewn i dderbynfa'r ysbyty yn unig. Er bod dewis o deganau ar gael gallai'r darparwr cofrestredig adolygu'r celfi a'r addurniadau i'w gwneud yn fwy croesawgar i blant sy'n ymweld.

Ar adeg ein hymweliad roedd campfa a phwll yr ysbyty ar gau. Roedd y darparwr cofrestredig ar fin adnewyddu'r ardaloedd er mwyn gwneud y gampfa yn fwy addas i'r grŵp cleifion. Roedd cleifion ag absenoldeb trwy ganiatâd o'r ysbyty yn gallu cael mynediad i'r cyfleusterau hamdden o fewn y gymuned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig arddangos gwybodaeth am hybu, gwarchod a gwella iechyd trwy'r ward a'r ardaloedd cymunedol o fewn yr ysbyty.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried sut i ddarparu darpariaeth iechyd corfforol ychwanegol yn Tŷ Catrin i gynorthwyo'r nyrs practis.

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r celfi a'r addurniadau yn ystafell y plant sy'n ymweld.

Mae gofyn i'r darparwr cofrestredig ddarparu gwybodaeth am y gwaith o adnewyddu campfa'r ysbyty, yn cynnwys yr amserlenni.

Urddas a pharch

Gwelsom y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd priodol ac yn trin cleifion ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig i ddarparu gofal ag urddas i'r cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion gyda lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau staff, roeddent yn ymateb gydag agweddau caredig ac ymatebol. Ar y cyfan, gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag dwysáu.

Ers ein harolygiad blaenorol mae'r darparwr cofrestredig wedi datblygu dwy ystafell gofal dwys yn Tŷ Catrin. Gellid monitro'r rhain trwy deledu cylch cyfyng gan y staff, ond mae posib y gallai hyn gael effaith ar gyfrinachedd ac urddas y cleifion o fewn yr ardaloedd hyn. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau llywodraethu clir ynglŷn â'r defnydd o deledu cylch cyfyng; ceir manylion am hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion y buom yn siarad â nhw eu bod yn cael eu trin ag urddas a charedigrwydd ac roeddent yn canmol y gofal, triniaeth a'r cymorth a ddarperir yn yr ysbyty. Fodd bynnag, gwnaeth rhai cleifion sylwadau eu bod yn ei gweld yn anodd mynd at staff anghyfarwydd sydd efallai wedi bod yn gweithio ar y ward fel aelod o staff asiantaeth, neu staff banc neu aelod o'r staff sy'n cyflenwi o ward arall.

Wedi cynnal trafodaethau gydag uwch reolwyr ac adolygu cofnodion y staff daeth yn amlwg bod y darparwr yn ceisio darparu gweithlu cyson gan fwcio staff banc ac asiantaeth fesul bloc pan yn bosib er mwyn llenwi bylchau yn y

rotâu staffio. Roedd anghysondebau yn y staff yn tueddu i ddigwydd oherwydd salwch byr-rybudd neu pan oedd rhaid hebrwng cleifion yn annisgwyl o'r ysbyty.

Ar bob ward, roedd gan gleifion eu hystafelloedd gwely en-suite eu hunain gyda thoiled, sinc a chawod. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely i atal cleifion eraill rhag dod i mewn; gallai'r staff agor y cloeon os oedd angen. Fodd bynnag, cawsom wybod nad oedd yr holl gloeon yn yr ystafelloedd gwely ar Ward y Rhath yn cloi, felly roedd rhai o'r cleifion yn pryderu nad oeddent yn gallu cloi eu hystafelloedd eu hunain. Cadarnhaodd y staff bod y mater hwn wedi'i adrodd i'r adran cynnal a chadw ac roeddent yn aros iddynt atgyweirio hyn, ond nid oedd dyddiad i gwblhau'r gwaith wedi ei ddarparu ar adeg yr arolygiad. Mae'n bwysig bod cloeon ystafelloedd y cleifion yn gweithio fel bod cleifion yn teimlo'n ddiogel o fewn eu hystafelloedd eu hunain.

Yn ystod ein harsylwad o'r amgylchedd gwnaethom nodi nad oedd y lleoliad diofyn ar gyfer paneli arsylwi'r ystafelloedd gwely o hyd yn cael eu cau; golygai hyn y gallai unrhyw un fyddai'n pasio'r ystafell wely edrych i mewn i'r ystafell wely a byddai hyn yn cael effaith ar breifatrwydd y claf. Cawsom wybod bod nifer o fecanweithiau cau ar gyfer arsylwi wedi mynd yn galed i'w gweithredu trwy'r ysbyty, a oedd yn rhannol gyfrifol am y rheswm pam y gwelsom fod nifer o baneli wedi eu gadael ar agor. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl baneli arsylwi yn yr ystafelloedd gwely yn gweithio'n gywir er mwyn helpu i sicrhau preifatrwydd y cleifion.

Yn ystod noson gyntaf ein harolygiad gwnaethom arsylwi ar nifer o forgrug mewn ystafell wely nad oedd yn cael ei defnyddio ar Ward y Rhath; yn ystod sgwrs â chlaf ar yr un ward gwnaethant hefyd godi'r mater ynglŷn â gweld morgrug yn ei hystafell wely eu hunain. Esboniodd yr uwch reolwyr eu bod yn ymwybodol bod plâu achlysurol o forgrug wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd. Er bod y darparwr cofrestredig wedi rhoi sylw i blâu blaenorol a chadarnhau y byddent yn cymryd camau yn brydlon i gael gwared a'r pla presennol, mae angen cael hyd i ateb hirdymor er mwyn atal plâu yn y dyfodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cloeon drysau'r holl ystafelloedd gwely yn gweithio.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod paneli arsylwi drysau'r holl ystafelloedd gwely yn weithredol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ateb hir dymor i'r pla morgrug er mwyn atal materion yn y dyfodol.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos mewn rhai wardiau ar gyfer cleifion, ond nid oedd yn cael eu harddangos yn gyson ar draws yr ysbyty. Cawsom wybod bod hyn yn rhannol oherwydd bod hysbysfyrddau wedi cael eu tynnu i lawr er mwyn cynnal rhaglen adnewyddu. Er gwaethaf hyn, gellir gwella'r amrediad o wybodaeth sy'n cael ei harddangos ar draws bob ward ac ardaloedd eraill yr ysbyty megis ardal y dderbynfa.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n cynnwys;

- gwybodaeth statudol
- gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a darpariaeth eiriolaeth,
- sut i wneud cwyn a
- gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Dylai'r darparwr cofrestredig hefyd ystyried arddangos gwybodaeth ynglŷn â'r ysbyty, y rhaglen gweithgareddau a chymwysterau cymunedol lleol.

Roedd y cleifion yn gallu cysylltu â chynrychiolydd o'r gwasanaeth eiriolaeth statudol naill ai dros y ffôn neu trwy wneud apwyntiad er mwyn i gynrychiolydd ddod i ymweld â'r claf yn yr ysbyty. Cawsom wybod nad oedd y gwasanaeth eiriolaeth statudol yn cynnal sesiynau galw i mewn yn yr ysbyty mwyach, lle'r oedd cynrychiolydd yn mynychu'r ysbyty ar ddiwrnod penodedig er mwyn i'r cleifion gael siarad â nhw heb fod ganddynt apwyntiad.

Cawsom wybod gan y staff nad oedd yr ysbyty'n atgyfeirio cleifion i'r gwasanaethau eiriolaeth yn awtomatig ac roedd yn rhaid i'r cleifion atgyfeirio eu hunain (neu ofyn i aelod o'r staff i wneud atgyfeiriad ar eu rhan) i'r gwasanaeth eiriolaeth. Roeddem yn pryderu nad oedd cleifion sydd efallai â'r diffyg gallu i ddeall rôl y gwasanaeth eiriolaeth yn derbyn y mewnbwn y mae ganddynt hawl i'w gael. Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu eu prosesau atgyfeirio ar gyfer eiriolaeth awtomatig er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y cyfle i dderbyn mewnbwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n cynnwys gwybodaeth statudol, gwybodaeth ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a darpariaeth eiriolaeth, sut i wneud cwyn a gwybodaeth ynglŷn ag Arolygiaeth

Gofal Iechyd Cymru.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried arddangos gwybodaeth ynglŷn â'r ysbyty, y rhaglen gweithgaredd a'r cyfleusterau cymunedol lleol.

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r prosesau atgyfeirio ar gyfer eiriolaeth awtomatig i sicrhau bod cleifion yn cael y cyfle i dderbyn mewnbwn eiriolaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy ein harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â chleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Pan oedd cleifion yn dal i fod yn ansicr, neu pan oedd yr hyn yr oeddent yn ceisio ei gyfathrebu wedi'i gamddeall, byddai'r staff yn egluro'n amyneddgar yr hyn yr oeddent wedi ei ddweud.

Roedd pob ward yn cynnal cyfarfodydd cynllunio beunyddiol bob bore i drefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, megis cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol ac ati.

Roedd cyfarfod wythnosol ar bob uned lle'r oedd cyfle i'r cleifion gynnig adborth ar y gofal y maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolwyr. Lle bynnag y bo modd, roedd teuluoedd a gofaluwr y cleifion yn bresennol yn ystod rhai cyfarfodydd, gyda chaniatâd y claf.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ffocws clir ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn yr ysbyty. Roedd gofal unigol yn cael ei ddarparu, ac roedd hwn, yn gyffredinol, yn canolbwyntio ar driniaeth ac adferiad a gefnogwyd gan yr arferion lleiaf rhwystrol, wrth gynllunio gofal ac mewn arferion ward neu ysbyty.

Roedd gan bob claf ei raglen ofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol, fel meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, o fewn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd yr awdurdod gofynnol yn ei le).

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion staff yn cyd-fynd â pholisïau sefydledig yr ysbyty ac roedd systemau yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal.

Roedd dogfennau cadw'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau yn gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gweithredu gwelliannau i weithrediad y Ddeddf (yn Tŷ Catrin ac mewn ysbytai eraill) i wireddu ei dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf fel y nodwyd yng Nghod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru 2016. Mae'r rhain wedi'u manylu yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd cyfarfodydd cleifion rheolaidd i ganiatáu i'r cleifion gynnig adborth ar ddarpariaeth gofal yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty hefyd wedi cynnal arolygon cleifion; ond nid oedd gwybodaeth am gasgliadau'r arolwg, pa gamau y mae'r darparwr cofrestredig wedi neu yn mynd i gymryd yn cael eu harddangos ar y wardiau ar gyfer y cleifion neu yn ardal y dderbynfa ar gyfer ymwelwyr.

Roedd polisi a gweithdrefnau cwynion ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â holl gwynion cleifion am wasanaethau yn Tŷ Catrin.

Roedd cwynion yn cael eu dosbarthu fel cwynion anffurfiol neu ffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi ar bob ward o fewn dogfen bapur ac roedd cwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar gofnod cwynion cyfrifiadurol ar gyfer yr holl ysbyty. Gwnaeth cyfarwyddwr yr ysbyty gadarnhau bod y darparwr yn adolygu'r weithdrefn cwynion er mwyn cyfuno'r proses mewn i un system. Byddai hyn yn cynorthwyo i adnabod tueddiadau ac i rannu unrhyw ddysgu ar y cyd.

Gwnaeth sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol sefydlu bod unigolyn annibynnol wedi'i neilltuo i archwilio'r cwyn a bod camau yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y sefydliad er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol yn yr ysbyty.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd yr ysbyty yng nghanol rhaglen adnewyddu ac ar y cyfan roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd ganddo gelfi, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y defnydd o deledu cylch cyfyng yn yr ystafelloedd gofal dwys yn seiliedig ar risg er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y claf wrth gynnal diogelwch.

Mae angen gwelliannau er mwyn cyflenwi cyfrifoldebau statudol y Ddeddf gan y darparwr cofrestredig a bod yr arfer yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd gan Tŷ Catrin brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau ac i gynnal a chadw iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty yn darparu gofal cleifion unigoledd wedi ei ategu gan yr arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac arferion ysbyty neu ward.

Roedd y mynediad i'r ysbyty yn ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod ac roedd yr holl staff ac ymwelwyr yn cofrestru yn y dderbynfa. Roedd gan yr ysbyty weithdrefnau diogelwch ar waith er mwyn lleihau'r risg bod eitemau cyfyngedig yn cael eu cludo i mewn i'r wardiau. Roedd pob shift yn cynnwys nyrs ddiogelwch a benodwyd ar bob ward a oedd yn gyfrifol am gynnal y protocolau diogelwch ar bob ward.

Roedd gan yr ysbyty restr o eitemau gwaharddedig oedd yn cael ei arddangos yn y dderbynfa ac roedd loceri diogel ar gael i storio unrhyw eitemau na ellir eu cymryd i mewn i'r ward, megis ffonau symudol, tanwyr, hylifau fflamadwy, ac ati.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth yn ôl y gofyn. Roedd pwyntiau galw am nyrs o amgylch y wardiau ac

yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion allu galw am gymorth pe bai angen.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enwau'r claf/cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ataliaeth a ddefnyddiwyd yn cael ei dogfennu, gan gynnwys pwy gymerodd rhan ac osgo corff pob un a oedd ynghlwm wrth atal y claf. Roedd adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu cysylltu'n awtomatig â nodiadau gofal electronig unigol y cleifion, a oedd yn sicrhau bod y rhain yn gyfredol.

Roedd strwythur hierarchaidd ar gyfer cymeradwyo adroddiadau am ddigwyddiadau, a oedd yn sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu mewn da bryd gan aelod o'r tîm clinigol a oedd yn cyfrannu at ofal unigoledig y claf a gweithiwr a oedd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yr ysbyty.

Roedd adroddiadau digwyddiad rheolaidd yn cael eu llunio a'u hadolygu ar lefel ysbyty a sefydliad fel y gellid adolygu a dadansoddi nifer y digwyddiadau. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol yn ôl y gofyn i ystyried meysydd penodol. Roedd y system adrodd digwyddiadau a'r amserlenni adrodd yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro i gynorthwyo wrth ddarparu gofal diogel yn Tŷ Catrin.

Fel rhan o strategaeth yr ysbyty ar reoli ymddygiad heriol, roedd dwy ystafell gofal dwys wedi'u hadeiladu ers ein harolygiad blaenorol, un ar y llawr daear ar gyfer wardiau'r dynion, Ward y Rhath a Ward Bute, ac un arall ar y llawr cyntaf ar gyfer wardiau'r menywod. Roedd cyfleusterau'r ystafelloedd gofal dwys yn cynnwys cyfleusterau toiled a chawod hunangynhwysol.

Defnyddio'r ystafell gofal dwys oedd y cam olaf a ddilynwyd gan y staff wrth reoli ymddygiad claf, a gellid ei defnyddio ar gyfer ymwahanu claf.¹ Os oedd risg y claf yn golygu ei bod yn ofynnol, roedd dillad gwely a dillad gwrthrwygo yn cael eu darparu i helpu i gynnal ei hurddasrwydd tra'r oedd yn derbyn gofal o fewn ystafell gofal dwys. Roedd gan y darparwr cofrestredig polisi ar waith at gyfer defnyddio'r ystafelloedd gofal dwys ac ymwahanu oedd yn datgan y gallai cleifion fod yn yr ystafell gofal dwys am gyfnod byr (e.e. rhai munudau) neu am gyfnodau hirach o ddyddiau neu wythnosau. Roedd yr adegau pan

¹ Cadw claf o dan oruchwyliaeth mewn ystafell, a all fod o dan glo. Ei unig nod yw rheoli ymddygiad cynhyrfus iawn sy'n debygol o beri niwed i bobl eraill.

ddefnyddiwyd yr ystafell gofal dwys ac ymwahanu yn cael eu cofnodi a'u monitro.

Roedd teledu cylch cyfyng ar gael er mwyn arsylwi ar bob ardal o'r ystafelloedd gofal dwys. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y defnydd o deledu cylch cyfyng yn seiliedig ar risg claf unigol a digwyddiad er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y claf yn yr ystafell gofal dwys yn cael ei gynnal wrth gynnal diogelwch y claf a'r staff. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y penderfyniad i ddefnyddio teledu cylch cyfyng wedi'i ddogfennu'n glir. Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisi ynghylch defnyddio teledu cylch cyfyng er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y nodwyd yn ei Chod Ymarfer teledu cylch cyfyng 2017².

Yn ystod ein harolygiad nid oedd nifer bychan o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch y systemau gadael rheoledig ag awtomatig sydd ar waith petai achos tân yn yr ysbyty. Gwnaeth cyfarwyddwr yr ysbyty gadarnhau bod gweithdrefnau gadael mewn argyfwng tân yn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch tân perthnasol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o weithdrefnau gadael mewn argyfwng tân ac nad oes unrhyw gyfyngiadau ar waith a fyddai'n torri rheoliadau diogelwch tân a pholisi'r darparwr cofrestredig.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod Cydlynnydd Nos penodol a oedd yn nyrs cofrestredig yn gyfrifol am yr ysbyty ar gyfer bob shift nos. Roedd y rôl hon yn darparu arweinyddiaeth a chymorth ar gyfer staff y ward. Roedd y Cydlynnydd Nos y gwnaethom gwrrdd â hwy ar noson gyntaf yr arolygiad yn gallu darparu gwybodaeth angenrheidiol ynglŷn â staffio'r ysbyty a'r grŵp cleifion. Roedd hyn yn dangos tystiolaeth bod goruchwyliaeth glir o weithrediad yr ysbyty yn ystod y nos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei pholisi ynghylch defnyddio teledu cylch cyfyng er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y nodwyd yn ei Chod Ymarfer teledu cylch cyfyng 2017.

² <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1542/cctv-code-of-practice.pdf>

Mae'r cod hefyd yn adlewyrchu'r amgylchedd rheoleiddiol ehangach. Wrth ddefnyddio, neu wrth fwriadu defnyddio systemau gwyliadwriaeth, mae angen i nifer o sefydliadau ystyried eu hymrwymadau o ran y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), y Ddeddf Diogelu Rhyddidau (POFA), y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA) a Chod Ymarfer Camera Gwyliadwriaeth o dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau (Cod POFA).

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o weithdrefnau gadael mewn argyfwng tân ac nad oes unrhyw gyfyngiadau ar waith a fyddai'n torri rheoliadau diogelwch tân a pholisi'r darparwr cofrestredig.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Disgrifiwyd system archwilio reolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd y system hon yn cael ei chwblhau gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella, fel y gellid cymryd camau priodol lle y bo angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith i hybu proses reolaidd ac effeithiol o lanhau'r ysbyty ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a roddwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 81% o'r staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ynghylch rheoli heintiau, a threfnwyd bod y 19% sy'n weddill yn cwblhau eu hyfforddiant diweddar.

Gwelsom fod yr ysbyty'n lân, ar y cyfan, ac yn rhydd rhag annibendod. Fodd bynnag, ar ward y Rhath a ward Bute gwelsom nifer o fannau ar y ward a oedd wedi'u staenio neu eu marcio. Gwnaeth staff esbonio'r rhesymau dros lawer o'r rhain, ac er bod nifer yn ymwneud ag ymddygiad cleifion, dylid glanhau'r marciau cyn gynted ag y bo'n bosibl yn ymarferol. Roedd yn amlwg bod y staeniau ar ward y Rhath yn parhau er bod y claf wedi cael ei drosglwyddo i ward Bute.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y darparwr cofrestredig yn cynyddu nifer y cyfleusterau golchi dillad sydd ar gael i gleifion ar draws yr ysbyty fel rhan o'i raglen adnewyddu.

Roedd cynnyrch hylendid dwylo ar gael yn yr ardaloedd perthnasol o'r ysbyty. Roedd gan staff hefyd fynediad at gyfarpar diogelu personol er mwyn atal a rheoli heintiau a dadheintio pan oedd ei angen.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff. Roedd biniau priodol ar gael i gael gwared ar eitemau meddygol miniog ac nid oedd y rhain wedi cael eu gorlenwi.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae plâu morgrug yn effeithio ar Tŷ Catrin yn rheolaidd; mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staeniau a marciau'n cael eu glanhau ar unwaith.

Maeth

Canfuom fod cleifion yn cael dewis o brydau ar fwydlen pedair wythnos. Gwelsom fod bwydlen amrywiol wedi'i harddangos, a dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael dewis o bethau i'w bwyta. Roedd y fwydlen yn amrywio bob tymor drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â'r prydau bwyd a ddarparwyd, roedd modd i gleifion ddefnyddio'r gegin therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau bwyd eu hunain, ac archebu bwyd brys i'r ysbyty.

Roedd adborth y cleifion o ran y prydau bwyd ac opsiynau'r fwydlen yn cael eu casglu ac roedd hyn yn helpu wrth adolygu a pharatoi opsiynau ar gyfer y fwydlen. Roedd safbwyntiau cymysg gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr adolygiad ynghylch y bwyd a ddarperir yn yr ysbyty. Rydym yn deall bod swyddi gwag parhaus wedi bod yn y tîm arlwygo, gydag un cogydd a dau gynorthwyydd yn y gegin yn unig yn rhan o'r tîm. Mae'r darparwr cofrestredig wedi penodi unigolyn ar gyfer swydd yr ail gogydd yn ddiweddar, ac roedd yn hysbysebu ar gyfer cynorthwyydd ychwanegol yn y gegin.

Roedd y staff arlwygo y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod hyn wedi cael effaith ar gapasiti a chysondeb y staff oherwydd bod yn rhaid defnyddio staff o'r asiantaeth. Gwnaethant hefyd nodi eu bod yn teimlo nad oeddent wedi llwyddo i ddarparu'r gwasanaeth y byddent yn dymuno ei ddarparu, er enghraifft, nid oeddent wedi gallu mynd i gyfarfodydd cleifion i drafod materion ynghylch bwyd, fel y byddent wedi'i wneud pan oedd ganddynt dîm llawn o staff.

Roedd ceginau ar bob un o'r wardiau, fel bod modd i gleifion gael mynediad at eu diodydd a'u byrbrydau trwy gydol y dydd a'r nos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad ynghylch sefydlu'r tîm arlwygo yn Tŷ Catrin.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu tri allan o'r pedwar clinig yn yr ysbyty, a chanfod bod y gwaith o reoli'r feddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaeth wedi ei storio'n ddiogel ac roedd cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth wedi eu cloi. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa, ac roedd archwiliadau yn cael eu cynnal a oedd yn helpu'r rheolwyr a'r broses o ragnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Roedd tystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd ar yr oergell feddyginiaeth ac ystafell y clinig i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y gweithgynhyrchydd.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n agored i gael eu camdefnyddio. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyfrif amdanynt a'u gwirio bob dydd. Fodd bynnag, roedd pedwar achlysur yn ystod y mis diwethaf lle rhoddwyd cyffuriau a reolir, ond nid oedd dau aelod o staff wedi llofnodi amdanynt.

Roedd gan yr ysbyty glinig newydd a rennir ar gyfer Bute a'r Rhath; er bod cwpwrdd y Cyffuriau a Reolir yn ddiogel, roedd yn aros am silffoedd ynddo er mwyn trefnu meddyginiaethau yn well. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod y silffoedd wedi'u harchebu, ac y byddant yn cael eu gosod yn fuan.

Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf, llun o'r claf a'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth ac roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i gweinyddu, a nodwyd rheswm pan nad oedd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl Gyffuriau a Reolir yn cael eu cyfrif amdanynt yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan gypyrddau'r Cyffuriau a

Reolir silffoedd addas ynddynt er mwyn cadw'n drefnus.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd trefniadau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Fel y nodwyd uchod, roedd cyfleusterau addas ar gyfer ymweliadau gan blant yn yr ysbyty.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a roddwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 81% o'r staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf mewn diogelu plant ac oedolion, a threfnwyd bod y 19% sy'n weddill yn cwblhau eu hyfforddiant diweddarau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn yr ysbyty yn rheolaidd, ac archwiliad o'r offer dadebru bob nos – roedd y staff wedi cofnodi pryd y cynhaliwyd y rhain i sicrhau bod yr offer yn bresennol ac yn gyfredol. Roedd yr ysbyty yn ailddatblygu ei restr wirio i sicrhau bod archwiliadau cyson yn cael eu cynnal ar draws yr ysbyty.

Roedd torwyr clymau wedi'u lleoli ar draws yr ysbyty rhag ofn y byddai argyfwng.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhestr wirio safonol ar gyfer archwilio'r offer argyfwng ar draws yr ysbyty.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd y trefniadau ar gyfer yr ysbyty yn cael eu trosglwyddo trwy drefniadau llywodraethu The Priory Group, a oedd yn hwyluso proses ddwy ffordd o fonitro a dysgu.

Rheoli cofnodion

Roedd yr holl gofnodion cleifion yn electronig ac wedi'u diogelu gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod ac achosion o dorri cyfrinachedd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion y cleifion ar draws y wardiau. Roedd yn amlwg bod y staff ar draws y timau amlddisgyblaeth yn ysgrifennu nodiadau yn fanwl ac yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys dogfen fyw ynglŷn â'r claf a'i ofal.

Roedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gefnogol o'r prosesau cyfreithiol. Fodd bynnag, dim ond un aelod o'r staff yn yr ysbyty a oedd yn gallu cael mynediad at y dogfennau statudol gwreiddiol ar gyfer cleifion. Nid oedd unrhyw bosibilrwydd i weithwyr proffesiynol penodedig gael mynediad at y dogfennau gwreiddiol petai'r aelod o staff hwn yn absennol. Mae hyn yn peri risg bosibl i'r darparwr cofrestredig pe bai amgylchiadau annisgwyl yn atal yr un aelod o staff rhag dod i'r ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod modd cael mynediad at y dogfennau statudol gwreiddiol ynghylch y Ddeddf Iechyd Meddwl ar unrhyw un adeg.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer tri o gleifion dros y ddwy ward – Bute a Victoria. Gwnaethom hefyd adolygu'r prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith ar gyfer monitro defnydd y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) ar draws pob un o'r chwe ward yn Tŷ Catrin.

Cadarnhaodd y tair set o ddogfennau statudol bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithiol yn Tŷ Catrin. Fodd bynnag, wrth i ni graffu ar ffeiliau cadw cleifion ac adolygu'r prosesau ynghylch cyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf, Deddf Iechyd Meddwl 1983 a'r Cod Ymarfer i Gymru, Diwygiwyd 2016 (y Cod), gwelsom ddiffygion sylweddol o ran yr arferion.

Gwelsom nad oedd meysydd hanfodol o'r Ddeddf yn cael eu cwblhau yn Tŷ Catrin, ac o drafod gyda staff gwelsom eu bod yn ddiffygiol mewn ysbytai Priory eraill yng Nghymru. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Darparu copïau o'u papurau cadw i gleifion, paragraff 4.14
- Gwybodaeth i gleifion am gydsynio i driniaeth, paragraff 4.23
- Gwybodaeth i berthynas agosaf cleifion, paragraffau 4.36 – 4.40

- Cofnodion o drafodaethau am driniaeth gyda chleifion, paragraff 24.34
- Cofnodion o ddarparu gwybodaeth i gleifion am eu hawliau o ran meddyginiaeth, paragraff 24.37

Nid oedd digon o staff gyda'r wybodaeth briodol i gyflawni dyletswyddau statudol y darparwr cofrestredig ynghylch y Ddeddf, ac mae'r arfer hwnnw'n dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Gwnaethom nodi achos posibl o wrthdaro buddiannau gyda chyfansoddiad aelodau panel Gwrandawriad Rheolwr yr Ysbyty. Gwnaethom esbonio'r achos penodol gyda chyfarwyddwr yr ysbyty er mwyn ei adolygu yn dilyn ein harolygiad a chymryd camau gweithredu priodol.

Nid oedd copïau o'r Cod ar bob ward yn Tŷ Catrin, yn y Gymraeg nac y Saesneg. Mae'n rhaid bod copïau o'r Cod ar gael i gleifion a staff yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o staff sydd â'r wybodaeth briodol i gyflawni dyletswyddau statudol y darparwr cofrestredig ynghylch y Ddeddf, a bod yr arferion yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod Ymarfer i Gymru (Diwygiwyd 2016) – Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system addas ar waith i atal unrhyw wrthdaro buddiannau o ran aelodau panel gwrandawriad rheolwr yr ysbyty.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o'r Cod Ymarfer i Gymru (Diwygiwyd 2016) – Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o bedwar o gleifion.

Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru, roedd ganddynt amcanion mesuradwy, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn gyffredinol, roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn manteisio ar gryfderau claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydliad ac annibyniaeth.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli. Fodd bynnag, wrth adolygu'r asesiad risg i gleifion a weithredwyd yn ddiweddar gan Priory, prin oedd y wybodaeth a gofnodwyd yn yr asesiad risg; yn enwedig o ran dangos tystiolaeth a chofnodi'r farn glinigol i gefnogi canlyniad yr asesiad risg. Nid oedd y staff hefyd yn gallu darparu'r meini prawf ar gyfer barnu bod risg yn isel, yn ganolog neu'n uchel. Nid oedd y staff felly yn gallu darparu sail resymegol eglur dros eu ffordd o asesu risg.

Ar gyfer tri o'r pedwar cynllun gofal a thriniaeth a adolygwyd, nid oeddem yn gallu dod o hyd i'r cydlynedd gofal penodol ar gyfer y claf. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi'n glir ar gyfer pob claf sydd â chynllun gofal a thriniaeth.

Roedd y cofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn dangos bod iechyd corfforol yn cael ei fonitro'n dda, fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw fewnbwn gan ddeietgydd ar gyfer un claf, a fyddai'n cynorthwyo cynllun gofal y tîm amlddisgyblaeth ar gyfer rheoli pwysau.

Yn ogystal, nid oedd gan un claf gynllun gofal ar gyfer meddyginiaeth o dan barth y cynllun gofal a thriniaeth ar gyfer meddyginiaeth a thriniaethau eraill, ond roedd wedi derbyn meddyginiaeth reolaidd ac ar gyfer tawelu cyflym.

Roedd yn gyffredin hefyd nad oedd staff yn cofnodi'n glir unrhyw anghenion cleifion nad oeddent yn cael eu diwallu tra oeddent yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig bod anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu yn cael eu cofnodi fel y gall y rhain gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

Dywedodd cleifion a staff y gwnaethom siarad â nhw fod cleifion yn rhan o drafodaethau ynghylch eu gofal (pan oedd cleifion yn dymuno cymryd rhan). Fodd bynnag, wrth adolygu cofnodion cleifion, gwelsom nad oedd hyn yn cael ei gofnodi'n glir bob amser, ac nid oedd rhai cofnodion yn llwyddo cofnodi a oedd y claf yn rhan, ei safbwyntiau, neu a oedd y claf wedi gwrthod cymryd rhan.

Prin hefyd y cofnodwyd yn y cofnodion cleifion a adolygwyd gennym a oedd teulu neu ofalwyr yn rhan o ofal y claf. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod cleifion yn cymryd absenoldeb trwy ganiatâd i fynd i gartrefi aelodau o'r teulu. Cadarnhaodd cleifion a staff fod perthnasau neu ofalwyr yn cymryd rhan weithgar yng ngofal rhai cleifion - mae angen cofnodi hyn yng nghofnodion gofal cleifion, neu'r rheswm pam nad yw aelodau o'r teulu neu ofalwyr yn cymryd rhan.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion a gyflwynwyd ar gofnodion electronig cleifion gan y staff o safon broffesiynol dda; fodd bynnag, roedd rhai cofnodion yn brin o fanylion, yn enwedig ynghylch cyflwr meddyliol cleifion, megis 'ymddangos mewn hwyliau isel' neu 'parhau'n ansefydlog.' Byddai cofnodion mwy manwl sy'n esbonio'r rhesymau dros gyflwr meddyliol claf ac ymyriadau a geisiwyd yn cynorthwyo gwaith y tîm amlddisgyblaethol o adolygu a chynllunio gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg cleifion yn dangos ac yn llywio barn glinigol y canlyniad.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cydlynnydd gofal yn cael ei gofnodi'n glir ar gyfer pob claf sydd â chynllun gofal a thriniaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dietegydd yn rhoi mewnbwn i Tŷ Catrin pan fo angen.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod parth y cynllun gofal a thriniaeth ar gyfer meddyginiaeth a thriniaethau eraill yn cael ei gwblhau ar gyfer cleifion sy'n derbyn meddyginiaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu yn cael eu cofnodi yng nghynlluniau gofal a thriniaeth cleifion.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfraniad claf at ei ofal yn cael ei gofnodi'n glir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfraniad teulu a/neu ofalwr yng ngofal y claf yn cael ei gofnodi'n glir yng nghofnodion cleifion.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion clinigol yn fanwl, yn enwedig o ran cyfeirio at gyflwr meddyliol cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod Tŷ Catrin yn cael ei arwain a'i rheoli'n dda, a chefnogwyd hyn gan The Priory Group. Gwelsom staff ymroddedig a oedd â dealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Ar y cyfan, roedd cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol yn uchel. Fodd bynnag, maes yr oedd angen ei wella ar draws pob ward oedd hyfforddiant ynghylch torri'n rhydd a rheoli ac atal trais ac ymddygiad ymosodol.

Roedd prosesau recriwtio yn cael eu cynnal mewn dull agored a theg gydag archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Yn gyffredinol, canfuom fod systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn, i raddau, trwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â'r gofal a ddarperir i gleifion. Cofnodwyd y trefniadau hynny fel y gellid eu hadolygu.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i sicrhau bod y darparwr cofrestredig yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran y Ddeddf, fel bod yr arferion yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Ers ein hadolygiad blaenorol, mae nifer o newidiadau wedi bod o ran pwy sy'n berchen ar Tŷ Catrin ac yn ei rheoli. Roedd newid wedi bod gyda'r darparwr cofrestredig o Partnerships i Priory Healthcare, roedd cyfarwyddwr newydd

wedi'i benodi i'r ysbyty llai na mis cyn ein hadolygiad, ac roedd aelodau newydd wedi'u penodi i rai timau amlddisgyblaethol.

Er gwaethaf nifer o newidiadau yn Tŷ Catrin, trwy ein trafodaethau â staff, edrych ar gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a'u hymgysylltiad ac adolygu cofnodion cleifion, roedd yn gadarnhaol gweld tystiolaeth o waith tîm cryf gyda'r tîm amlddisgyblaethol. Gwnaeth y staff sylwadau ffafriol am weithio amlddisgyblaeth gan nodi eu bod yn teimlo bod aelodau staff eraill yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu parchu.

Nodwyd tystiolaeth hefyd yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol o gydweithio da ymysg y tîm amlddisgyblaethol. Cafodd y claf a ddaeth i'w adolygiad ei groesawu'n gynnes a'i drin yn sensitif iawn, a chafodd ei safbwyntiau eu ceisio a'u hystyried yn ystod y cyfarfod.

Roedd pennaeth adran ar gyfer pob disgyblaeth a oedd yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer eu tîm ac yn cysylltu ar y cyd â phenaethiaid yr adrannau eraill yn The Priory Group.

Bu i'r staff siarad yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarperir gan yr uwch-reolwyr, rheolwyr y ward, a'r cymorth gan gydweithwyr ar draws y disgyblaethau. Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Tŷ Catrin yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn Tŷ Catrin ac yn gorfforaethol trwy ddulliau adrodd rheolaidd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r sefydliad staffio yn Tŷ Catrin a'r hyn a nodwyd ganddynt yn eu datganiad o ddiben. Roedd chwe swydd wag ar gyfer nyrsys cofrestredig a saith ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd - yr oedd y darparwr cofrestredig yn recriwtio iddynt. Roedd disgwyl i ddwy nyrs staff ddechrau gweithio'r mis ar ôl ein harolygiad.

Er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y rota staffio a allai godi oherwydd swyddi gwag, roedd gan y darparwr cofrestredig system cronfa staff ar waith ac roedd yn defnyddio staff asiantaeth. Bu i rotâu'r staff ddangos bod y defnydd o nyrsys a oedd wedi'u cofrestru gydag asiantaeth yn gyffredinol yn unigolion rheolaidd a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a chyda'r grŵp cleifion. Roedd hyn yn cynorthwyo gyda darparu dilyniant o ran gofal i gleifion.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod cyfarwyddwr yr ysbyty wedi datblygu cynllun Gweithlu Tŷ Catrin (cadw gweithwyr). Roedd y cynllun yn cofnodi'r blaenoriaethau ar gyfer y sefydliad o ran datblygu a chynnal ei weithlu, yn ogystal â chynigion a mentrau a oedd wedi cael eu datblygu neu eu cynllunio.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol, sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau blynyddol staff yn yr ysbyty a chanfod bod y cyfraddau cwblhau yn uchel ar y cyfan. Roedd y system electronig yn rhoi manylion am gyfraddau cwblhau'r cyrsiau i'r uwch-reolwyr, a manylion cydymffurfiaeth staff unigol. Maes yr oedd angen ei wella o ran cydymffurfiaeth ar draws pob ward oedd hyfforddiant ynghylch torri'n rhydd a rheoli ac atal trais ac ymddygiad ymosodol. Fodd bynnag, tynnodd y system electronig sylw at y ffaith bod dyddiad hyfforddi wedi'i bennu ar gyfer cyfran uchel o staff y mae angen hyfforddiant diweddarau arnynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant ynghylch torri'n rhydd a rheoli ac atal trais ac ymddygiad ymosodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn Tŷ Catrin. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn cyflogi, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal, ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio.

Roedd pob aelod o staff yn derbyn sesiwn ymsefydlu cyn dechrau gweithio ar wardiau'r ysbyty. Roedd tystysgrif ymsefydlu yn ffeiliau'r staff parhaol, ar ôl iddynt gwblhau eu rhaglen ymsefydlu gorfforaethol. Roedd staff o'r asiantaeth yn cwblhau cyfnod ymsefydlu yn yr ysbyty cyn dechrau eu sifft, roedd aelod o staff yn Tŷ Catrin a'r aelod o staff o'r asiantaeth yn llofnodi'r cyfnod ymsefydlu - ac roedd y rhain yn cael eu rhoi mewn ffeil gyda'r tîm adnoddau dynol.

Roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar ôl pob tair blynedd o waith, ac roedd systemau ar waith i fonitro bod cofrestrïadau proffesiynol yn gyfredol.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, a chadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â hwy.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi ni i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar gael ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Catrin

Wardiau: Pob ward

Dyddiadau'r arolygiad: 22–24 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig arddangos gwybodaeth am hybu, diogelu a gwella iechyd trwy gydol y ward ac ardaloedd cymunedol yn yr ysbyty.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	<p>Mae angen cyswllt rhwng: Nyrs y Practis, Therapydd Chwaraeon a chleifion parthed y wybodaeth am hybu iechyd sydd ei hangen.</p> <p>Bydd y wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos ar y byrddau gwybodaeth sydd wedi'u dynodi, a byddant yn benodol i'r rhywiau.</p>	Jayne Gardner (Nyrs y Practis) / Sophie Arnold (Therapydd Chwaraeon) / Elin Thomas (Uwch-therapydd Galwedigaethol) / Bethan Bater (Therapydd Galwedigaethol)	AR UNWAITH Cwblhawyd: 29/05/18 15/06/18

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried sut i sicrhau bod rhagor o ddarpariaeth iechyd corfforol ar gael yn Tŷ Catrin er mwyn cefnogi nyrs y practis.</p>	<p>3. Hybu, diogelu a gwella iechyd</p>	<p>Adolygu rôl nyrs y practis, a beth sy'n dod o dan ei disgrifiad swydd/cylch gwaith ar hyn o bryd</p>	<p>Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig) / Jayne Gardner (Nyrs y Practis)</p>	<p>30/06/18</p>
		<p>Adolygiad o amllder a chysondeb Clinigau</p>	<p>30/06/18</p>	<p>30/06/18</p>
		<p>Adolygiad o'r cymorth gan y clinigydd cyfrifol ar gyfer nyrs y practis, a'r llwyth gwaith a rennir o ran iechyd corfforol</p> <p>Adolygiad o'r Protocol Prysennu</p>	<p>Dr Phil Huckle (Seiciatrydd Fforensig Ymgynghorol) / Jayne Gardner (Nyrs y Practis) / Dr Dilum Jayawickrama (Seiciatrydd Fforensig Ymgynghorol)</p>	<p>30/06/18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Adolygiad o'r cynorthwyr Cymorth Cyntaf Hyfforddedig, a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i gefnogi Nyrs y Practis</p> <p>Adolygiad o'r staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cynnal bywyd sylfaenol a chynnal bywyd canolradd</p> <p>Ystyried Hyfforddiant Rheoli Clwyfau ar gyfer staff</p> <p>Creu rhaglenni hyfforddi ar gyfer fflebotomi a'u darparu</p> <p>Creu rhaglenni hyfforddi ar gyfer electrocardiogramau a'u darparu</p>	<p>Victoria Wheeler (Nyrs Datblygu Ymarfer)</p> <p>Jayne Gardner (Nyrs y Practis) / Gail Blackman (Nyrs y Practis yn Tŷ Cwm Rhondda)</p>	<p>AR UNWAITH Cwblhawyd 06/06/18</p> <p>AR UNWAITH Cwblhawyd 06/06/18</p> <p>31/07/18</p> <p>31/07/18</p> <p>31/07/18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r dodrefn ac addurniad yr ystafell i blant sy'n ymweld.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Adolygu'r ardal ymweld gyda'r tîm cynnal a chadw Cytuno ar gynllunio addurno ac amserlen ar gyfer cwblhau Bydd y cleifion yn rhan o'r gwaith o addurno'r ystafell Gosod haenen breifatrwydd allanol ar y ffenestr	Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig) / Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)	AR UNWAITH Cwblhawyd 07/06/18 30/06/18 30/06/18
Gofynnir i'r darparwr cofrestredig ddarparu diweddariad ynghylch adnewyddu campfa'r ysbyty, gan gynnwys amserlenni.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cytuno ar gynlluniau llawr ar gyfer adnewyddu'r gampfa gyda'r adran ystadau Cadarnhau amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith gyda'r adran ystadau ganolog	Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)	AR UNWAITH Cwblhawyd 15/05/18 Medi 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y clo ar bob ystafell wely yn gweithio.	10. Urddas a pharch	Archwiliad o gloeon drysau'r ystafelloedd gwely wedi'i gwblhau yn dilyn digwyddiad o glaf yn rhwystro /	Peter Jones (SSM / Cynnal a chadw) / Stuart	AR UNWAITH Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>difrodi'r clo ar ddrws yr ystafell wely</p> <p>Bydd gwiriadau chwarterol o ddrysau tân yn cynnwys archwiliad o gloeon drysau'r ystafelloedd gwely</p>	<p>Mayne (Diogelwch ac Arweinydd Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig)</p> <p>Peter Jones (SSM / Cynnal a chadw)</p>	<p>8/04/18</p> <p>O 18 Gorffennaf</p>
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y paneli goruchwylio ar ddrws pob ystafell wely yn gweithio.</p>	<p>10. Urddas a pharch</p>	<p>Wedi cael dyfynbris ynghylch gosod drysau cyfan newydd – i gynnwys gosodiadau a ffitiadau gwrth-baricad.</p> <p>Gwneud cais drwy'r gwariant cyfalaf misol. Bydd unrhyw gamau gweithredu ar ôl hynny yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwariant cyfalaf.</p>	<p>Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)</p> <p>Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig)</p>	<p>AR UNWAITH Cwblhawyd 31/05/18</p> <p>AR UNWAITH Cwblhawyd 07/06/18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau datrysiad hirdymor ar gyfer y plâu morgrug er mwyn ateb unrhyw broblemau yn y dyfodol.	10. Urddas a pharch	<p>Mae plâu morgrug yn rhywbeth sy'n digwydd yn dymhorol, yn benodol yn ystod amodau tywydd cynnes. Rheoli trwy ddefnyddio cynnyrch pryfleiddiad bob pythefnos yn ystod misoedd yr haf.</p> <p>Cynghori cleifion i beidio â storio nwyddau darfodus yn eu hystafelloedd gwely – cadarnhawyd yn ystod cyfarfodydd cymunedol</p>	<p>Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>31/05/18</p> <p>YN BARHAUS</p>
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth wedi'i harddangos sy'n cynnwys gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a darpariaeth eiriolaeth, sut i wneud cwyn a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	9. Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	<p>Adolygu'r wybodaeth sydd wedi'i harddangos ar hyn o bryd yn y meysydd clinigol.</p> <p>Cadarnhau'r wybodaeth sydd i'w harddangos ar bob ward, a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.</p>	<p>Rheolwyr Wardiau</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>15/06/18</p> <p>15/06/18</p>
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried arddangos gwybodaeth am yr ysbyty, y rhaglen o weithgareddau a'r cyfleusterau yn y gymuned leol.	9. Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	Adolygu'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos ar hyn o bryd, gyda golwg ar ei diweddarau a/neu roi gwybodaeth newydd yn ei lle.	Rheolwyr Wardiau	15/06/18

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu ei brosesau atgyfeirio awtomatig at eiriolaeth er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y cyfle i dderbyn mewnbwn gan eiriolwr.</p>	<p>9. Gwybodaeth a chydysniad cleifion</p>	<p>Bydd rhestrau gwirio wrth dderbyn yn cael ei diwygio i gynnwys atgyfeiriad awtomatig at eiriolaeth wrth i glaf gael ei dderbyn i Tŷ Catrin.</p> <p>Bydd hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion yn dangos gwybodaeth ynghylch gwasanaethau eiriolaeth a dulliau cyswllt a chymorth yn glir.</p> <p>Bydd cleifion yn cael eu holi fel mater o drefn os oes angen cymorth eiriolaeth arnynt ar gyfer yr holl gyfarfodydd cleifion (fel isafswm), a bydd hyn yn cael ei gofnodi yng nghofnodion gofal.</p>	<p>Andrew Balmforth (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol)</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>AR UNWAITH</p> <p>15/06/18</p> <p>AR UNWAITH</p>
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisi ynghylch defnyddio teledu cylch cyfyng er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y nodwyd yn ei Chod Ymarfer teledu cylch cyfyng 2017.</p>	<p>22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p> <p>12. Yr amgylchedd</p>	<p>Adolygu polisi teledu cylch cyfyng y Priory (Diwygiwyd 23 Mai 2018), gyda Hwylusydd Gwella Ansawdd.</p> <p>Canfyddiadau:</p> <p>Croesgyfeirir y polisi â pholisïau</p>		<p>AR UNWAITH</p> <p>Cwblhawyd 06/06/18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>perthnasol eraill, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diogelu Data • Rheoli Achosion o Doriadau Diogelu Data • Cwynion • Rheoli, Ymchwilio ac Adrodd am Ddigwyddiadau • Aseiad Effaith ar Breifatrwydd <p>Mae'r polisi yn cyfeirio at ganllawiau 2014 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Nid dyma'r fersiwn ddiweddaraf, sef Mehefin 2017.</p> <p>Trosglwyddo argymhellion AGIC i David Watts (Cyfarwyddwr Rheoli Risgiau) parthed; cynnal adolygiad yn unol â chanllawiau 2017 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.</p>	Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig)	08/06/18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod	22. Rheoli risg	Arddangos cynlluniau llawr ar bob llawr,	Peter Jones	20/06/18

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau gadael mewn argyfwng tân, ac nad oes unrhyw gyfyngiadau ar waith a fyddai'n mynd yn groes i reoliadau diogelwch tân a pholisi'r darparwr cofrestredig.</p>	<p>a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p> <p>12. Yr amgylchedd</p> <p>4. Trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng</p>	<p>gyda'r weithdrefn gadael mewn argyfwng tân fel tystiolaeth ategol.</p> <p>Arddangos hysbysiadau gadael mewn argyfwng tân ar bob set o risiau a'r drws tân allanol.</p> <p>NODER: Roedd yr ymarfer tân diweddaraf (18/05/18) yn dangos bod pob aelod o staff wedi gadael yr adeilad yn briodol, yn unol â'r weithdrefn gadael mewn argyfwng.</p> <p>Caiff ymarferion tân (dydd/nos) eu cynnal bob chwarter.</p>	<p>(SSM / Cynnal a Chadw)</p> <p>Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)</p> <p>Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)</p>	<p>20/06/18</p> <p>Angen cynnal nesaf: Awst/Medi 2018</p>
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staeniau a marciau'n cael eu clirio ar unwaith.</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<p>Atal staeniau ac ailaddurno'r ardaloedd perthnasol.</p> <p>NODER: Mae cael cleifion i ymddwyn yn gyfrifol yn heriol, a cheir cyfnodau rheolaidd/aml o daflu diodydd ar waliau a nenfydau.</p>	<p>Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)</p>	<p>11/06/18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>01/06/18</p> <p>1 cynorthwydd cegin sy'n gyfwerth ag amser llawn</p> <p>Cynhaliwyd y cyfweiliadau: 02/05/18</p> <p>Derbyniwyd y cynnig ac mae'n aros am wiriadau cydymffurfiaeth gan yr adran adnoddau dynol / hyfforddiant ymsefydlu</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyffuriau a reolir yn cael eu cyfrif amdanynt yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae ASHTONS yn darparu gwasanaeth archwilio allanol, ac yn adrodd yn fyw bob wythnos gan nodi unrhyw wallau o ran rhagnodi a/neu roi meddyginiaethau.</p> <p>Rhaid i'r holl Gyffuriau a Reolir gael eu rhoi gan ddwy nyrs. Mae angen cadarnhau hyn gyda phob nyrs gofrestrdig a sicrhau bod asesiadau diweddar meddyginiaethau'n cael eu cwblhau yn ôl yr angen.</p> <p>Mae'r Nyrs â Gofal yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o roi'r holl feddyginiaethau yn unol â chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a pholisïau rheoli meddyginiaeth y Priory.</p>	<p>ASHTONS</p> <p>Rheolwr Wardiau / Andrew Balmforth (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol)</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>YN BARHAUS</p> <p>AR UNWAITH</p> <p>AR UNWAITH</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd gwiriadau ar hap o'r clinig yn cael eu cynnal bob wythnos gan reolwyr wardiau.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan gypyrddau'r Cyffuriau a Reolir silffoedd addas ynddynt er mwyn cadw'n drefnus.	15. Rheoli meddyginiaethau	Ar ôl cwblhau'r clinigau newydd, nodwyd bod angen silffoedd newydd ar gyfer cypyrddau'r Cyffuriau a Reolir.	Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig) / Peter Jones (SSM / Cynnal a Chadw)	AR UNWAITH Cwblhawyd 27/05/18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhestr wirio safonol ar gyfer archwilio'r offer argyfwng ar draws yr ysbyty.	16. Dyfeisiau ac offer meddygol a systemau diagnostig	Derbyniwyd y rhestr wirio a bydd diwygiadau/ychwanegiadau'n cael eu cadarnhau cyn ei chyflwyno unwaith eto i'r wardiau	Andrew Balmforth (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol) / Paul Stewart Davies (Prif nyrs)	15/06/18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod modd cael mynediad at y dogfennau statudol gwreiddiol ynghylch y Ddeddf Iechyd Meddwl ar unrhyw un adeg.	20. Rheoli cofnodion	Bydd Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cadw'r dogfennau gwreiddiol yn ddiogel. Mae modd i aelodau o'r Tîm Uwch-reolwyr gael mynediad at y dogfennau hyn os yw Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn absennol.	John Harris (Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl a Rheolwr Atgyfeiriadau) / Therisa Galazka (Rheolwr	Amherthnasol

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd copi electronig o ddogfennau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei lanlwytho er mwyn cyfeirio atynt.	Cofrestredig John Harris (Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl a Rheolwr Atgyfeiriadau)	31/08/18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o staff sydd â'r wybodaeth briodol i gyflawni dyletswyddau statudol y darparwr cofrestredig ynghylch y Ddeddf, a bod yr arferion yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod Ymarfer i Gymru (Diwygiwyd 2016) – Deddf Iechyd Meddwl 1983.	Deddf Iechyd Meddwl 1983	Cafodd arolygiad o'r adnoddau staff ei gynnal, a'i gytuno arno gan Reolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2016. Bydd trafodaeth bellach ac arolygiad yn cael eu codi gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Rhanbarthol er mwyn sefydlu model staffio ar gyfer 2018–2019.	Cerys Morris (Cyfarwyddwr Gweithredol) / Warren Irving (Cyfarwyddwr Rheoli) / Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig) / Daniel Whitfield (Cyfarwyddwr Cyllid)	31/07/18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system addas ar waith i atal unrhyw wrthdaro buddiannau o ran aelodau panel gwrandawriad	Deddf Iechyd Meddwl 1983	Ar unwaith; bydd gofyn i bob aelod o'r panel y gofynnir iddynt gynnal Gwrandawriad Rheolwyr ddatgelu unrhyw hanes o berthynas gyda'r	John Harris (Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl a	AR UNWAITH

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
rheolwr yr ysbyty.		unigolion a nodwyd er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw na'i chofnodi ar y safle. Bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer nodi'r Gwrandawriad yn unig, a cheir gwared arni yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018.	Rheolwr (Atgyfeiriadau)	
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o'r Cod Ymarfer i Gymru (Diwygiwyd 2016) – Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Deddf Iechyd Meddwl 1983	Mae Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar bob ward. Archebwyd argraffiad diwygiedig 2016 yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer yr holl fannau clinigol a'r dderbynfa.	Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig) / John Harris (Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl a Rheolwr Atgyfeiriadau)	AR UNWAITH Cwblhawyd 06/06/18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg cleifion yn dangos ac yn llywio barn glinigol y canlyniad.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Mae dealltwriaeth a rennir o risgiau (Isel – Uchel) wedi'i dogfennu'n glir yn y polisi clinigol ac asesiad risg. Cyfeirir at hyn ac mae'n cefnogi'r gwaith o lunio risgiau a'u canlyniadau. Trafodwyd yr Asesiad Risg yn fforymau	Amherthnasol	Amherthnasol

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Llinell Gwasanaeth Rhanbarthol		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cydlynnydd gofal yn cael ei gofnodi'n glir ar gyfer pob claf sydd â chynllun gofal a thriniaeth.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Adolygu'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â chynlluniau gofal a thriniaeth a phroffiliau electronig cleifion er mwyn sicrhau bod cydlynnydd gofal yn amlwg	SW	AR UNWAITH
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dietegydd yn rhoi mewnbwn i Tŷ Catrin pan fo angen.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Penodwyd deietegydd ac mae'n aros am gadarnhad gan yr adran adnoddau dynol a'r adran gyllid.	Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig)	30/06/1
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod parth y cynllun gofal a thriniaeth ar gyfer meddyginiaeth a thriniaethau eraill yn cael ei gwblhau ar gyfer cleifion sy'n derbyn meddyginiaeth.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Trafodaeth gyda'r Tîm Amlddisgyblaethol ynghylch Cynllunio Gofal a Thriniaeth. Mae angen cwblhau'r holl barthau ar gyfer cynlluniau gofal a thriniaeth i bob claf. Cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar y gweill er mwyn adolygu'r holl gynlluniau gofal presennol a mynd i'r afael â chamau gweithredu brys. Bydd yr wythnos gynllunio gofal a thriniaeth yn parhau yn unol â'r amserlen er mwyn adolygu'r holl	Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig) Tîm amlddisgyblaethol Tîm amlddisgyblaethol	AR UNWAITH Cwblhawyd 06/06/18 11/06/18 30/06/1

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		barthau.	I	
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu yn cael eu cofnodi yng nghynlluniau gofal a thriniaeth cleifion.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	<p>Ar hyn o bryd, caiff anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu eu casglu ar amserlenni unigol cleifion – caiff data ei gasglu ohonynt trwy gydymffurfio â dangosfyrddau tâl.</p> <p>Mae angen casglu anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu mewn cofnodion gofal yn uniongyrchol. Trafodaeth i sefydlu'r ffordd orau o weithredu hyn ar y safle.</p>	Tîm amlddisgyblaetho I	11/06/18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfraniad claf at ei ofal yn cael ei gofnodi'n glir.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	<p>Trafodaeth gyda'r tîm amlddisgyblaethol ynghylch cynllunio gofal a thriniaeth. Cyfraniad cleifion i'w ddogfennu'n glir ac i fod yn gyson i bawb.</p> <p>Cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar y gweill er mwyn adolygu'r holl gynlluniau gofal presennol a mynd i'r afael â chamau gweithredu brys.</p> <p>Bydd yr wythnos gynllunio gofal a thriniaeth yn parhau yn unol â'r amserlen er mwyn adolygu'r holl barthau.</p>	<p>Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig)</p> <p>Tîm amlddisgyblaetho I</p> <p>Tîm amlddisgyblaetho</p>	<p>AR UNWAITH Cwblhawyd 06/06/18</p> <p>11/06/18</p> <p>30/06/1</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			I	
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfraniad teulu a/neu ofalwr yng ngofal y claf yn cael ei gofnodi'n glir yng nghofnodion cleifion.</p>	<p>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</p>	<p>Trafodaeth gyda'r tîm amlddisgyblaethol ynghylch cynllunio gofal a thriniaeth. Cyfraniad y Gofalwr/Teulu a sylwadau parthed: sylwadau i'w cofnodi'n glir.</p> <p>*Cyfraniad gyda chydysniad y claf yn unig*</p> <p>Cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar y gweill er mwyn adolygu'r holl gynlluniau gofal presennol a mynd i'r afael â chamau gweithredu brys.</p> <p>Bydd yr wythnos gynllunio gofal a thriniaeth yn parhau yn unol â'r amserlen er mwyn adolygu'r holl barthau.</p>	<p>Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig)</p> <p>Tîm amlddisgyblaethol</p> <p>Rhys Bradley (Gweithiwr cymdeithasol) / Jim Crinion (Gweithiwr cymdeithasol) / Stephen McNicholas (Gweithiwr cymdeithasol)</p>	<p>AR UNWAITH Cwblhawyd 06/06/18</p> <p>11/06/18</p> <p>30/06/1</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion clinigol yn fanwl, yn enwedig o ran cyfeirio at gyflwr meddyliol cleifion.</p>	<p>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</p>	<p>Mae'r Priory yn cynnal rownd ansawdd o gwmpas y wardiau bob mis parthed: Dogfennau.</p> <p>Bydd ychwanegiadau i'r archwiliad bellach yn cynnwys gwirio ansawdd cofnodion gofal ar gyfer y pedair wythnos flaenorol, a hysbysu'r tîm amlddisgyblaethol o unrhyw gofnodion sy'n is na'r safon er mwyn cymryd camau gweithredu pellach.</p> <p>Rhoi canllawiau i staff ynghylch: arfer da ar gyfer ysgrifennu adroddiadau.</p> <p>Archwilio cofnodion clinigol ar hap ar gyfer sicrhau ansawdd a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn ôl yr angen</p>	<p>Daniel Stubbings (Seicolegydd Clinigol)</p> <p>Andrew Balmforth (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol)</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>30/06/1</p> <p>30/06/1</p> <p>AR UNWAITH</p>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant ynghylch torri'n rhydd a rheoli ac atal trais ac ymddygiad ymosodol.</p>	<p>25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol</p>	<p>Adroddir ar hyfforddiant staff ei bob wythnos, a chaiff ei gydymffurfiaeth ei feincnodi yn erbyn gwasanaethau eraill gan y Priory.</p>	<p>Victoria Wheeler (Nyrs Datblygu Ymarfer) / Therisa Galazka (Rheolwr Cofrestredig)</p>	<p>YN BARHAUS</p>
		<p>Mae angen i Gyfarwyddwr yr Ysbyty sicrhau bod pob aelod o staff yn cydymffurfio â hyfforddiant Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, gan gynnwys technegau Torri'n Rhydd.</p>	<p>Victoria Wheeler (Nyrs Datblygu Ymarfer) / Stuart Mayne (Diogelwch ac Arweinydd Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol)</p>	<p>YN BARHAUS</p>
		<p>Mae'r dyddiadau hyfforddiant sydd wedi'u cadarnhau fel a ganlyn: 20 a 21 Mehefin 25 a 26 Gorffennaf 5 a 6 Medi 26 a 27 Medi</p>	<p>Stuart Mayne (Diogelwch ac Arweinydd Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol) / Sam Carr (Uwch-</p>	<p>13/12/18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		10 a 11 Hydref 1 a 2 Tachwedd 201 29 a 30 Tachwedd 6 a 7 Rhagfyr 12 a 13 Rhagfyr	weithiwr gofal iechyd) / Kelly Dance (Uwch-weithiwr gofal iechyd)	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): THERISA GALAZKA

Swydd: CYFARWYDDWR YR YSBYTY / RHEOLWR COFRESTRIDIG

Dyddiad: 29 Mehefin 2018